gilling dod architects

Architecture
Interior Design
Masterplanning

Gilling Dod Architects
The Cruck Barn, Duxbury Park
Chorley, Lancashire PR7 4AT

t. +44 (0)1257 260 070

generalenquiries@gillingdod.com
www.gillingdod.com

I bwy bynnag a fynno wybod

22nd Mai 2020

Ynghylch cynigion Ysbyty Cymuned Gogledd Sir Ddinbych - Y Rhyl.

Mewn ymateb i argyfwng COVID-19 mae Llywodraeth Cymru bellach wedi rhoi datblygiad newid gorchymyn arwyddocâd cenedlaethol ar waith i helpu i oresgyn rhai o'r heriau i'r system gynllunio. Mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar yr ymgynghoriad cyn gwneud cais ar gyfer ein hysbyty cymuned arfaethedig.

Y gofynion gwreiddiol yn y broses cyn gwneud cais yw sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cynllun ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad sy'n agos at y safle datblygu. Ar ôl llawer o ystyriaeth, mae hyn wedi'i ddiwygio a gellir ond cael mynediad at y wybodaeth ar-lein.

Yn ein gohebiaeth ddiwethaf, rhoddwyd yr holl fanylion mynediad i chi allu edrych ar y dogfennau hyn. Yn ogystal â hyn, rydym wedi darparu rhif ffôn sy'n gwahodd unrhyw aelod o'r cyhoedd nad oes ganddynt fynediad at y rhyngrwyd i ffonio a gofyn am gopïau papur o'r wybodaeth allweddol. Cyflwynwyd y gofyniad hwn fel mesur lliniaru i sicrhau nad yw'r rhai heb fynediad i'r rhyngrwyd dan anfantais trwy ddileu'r gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio'n lleol.

Gellir edrych ar fanylion llawn y ddeddfwriaeth ddiwygiedig ar wefan Llywodraeth Cymru.

https://gov.wales/coronavirus-covid-19-updated-guidance-planning-authorities.

Er mwyn sicrhau bod trefniadau diwygiedig yn cydymffurfio â deddfwriaeth gyfredol, rydym wedi cynnwys hysbysiad cyhoeddus sy'n ffurfioli'r trefniadau ar-lein y cytunwyd arnynt. Mae'r hysbysiad hefyd yn cynnwys y manylion cyswllt i gael copi papur o'r wybodaeth ac i roi sylwadau ar y cynllun.

Hyderwn fod y wybodaeth hon yn glir ac yn hygyrch, ond os oes unrhyw broblem gyda chael mynediad at y wybodaeth, defnyddiwch un o'r cysylltiadau a restrir i roi gwybod i ni.

Rydym yn gobeithio y gwnewch gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich adborth.

Yn gywir,

Pensaer Gilling Dod

(Asiant sy'n gweithredu ar ra)

Directors
Sean Kember BA(Hons) Dip.Arch RIBA | **Andrew Arnold** BA(Hons)Dip.Arch RIBA | **Jo Kember** BA(Hons) Dip.Arch RIBA | **Tom Gilbert-Rule** BA(Hons) Dip-MA Arch RIBA

RIBA Chartered Practice
Certificate Number 9087 ISO 9001 ISO 14001
Constructionline A UK GOVERNMENT CERTIFICATION SERVICE
INVESTORS IN PEOPLE | Silver Until 2020
CHAS Accredited Contractor www.chas.co.uk

Gilling Dod Limited Registered Office: The Cruck Barn, Duxbury Park, Chorley PR7 4AT. Registered in Cardiff. Registered No. 2703179 – VAT Registration No. 548 8984 67